



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Bwyd a Maeth mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn

Canllawiau Arferion Gorau

Dyddiad cyhoeddi: 19 Gorffennaf 2019
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 11 Hydref 2019

Trosolwg

Diben y canllawiau hyn yw helpu Cartrefi Gofal Pobl Hŷn i ddarparu bwyd a diod sy'n diwallu anghenion eu preswylwyr

Sut i ymateb

Llenwch y ffurflen ymateb a'i hanfon i:
Lifestyles@llyw.cymru

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig:

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

Rhagor o wybodaeth ar gael oddi wrth:

Y Gangen Byw'n Iach ac Egnïol

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays 2
Caerdydd
CF10 3NQ

Blwch post: Lifestyles@llyw.cymru

e-bost:

rhif ffôn:

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgwymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, dyma'r manylion cyswllt: Y Swyddog Diogelu Data: Llywodraeth Cymru Parc Cathays CAERDYDD CF10 3NQ

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House Water Lane Wilmslow Cheshire SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Rhagair

Ein gweledigaeth yw y dylai pobl hŷn mewn cartrefi gofal yng Nghymru gael y maeth gorau posibl i'w hiechyd, a hynny mewn amgylchedd gofalgar ac urddasol. Dylent allu mwynhau eu bwyd, a gallu cael mynediad ato, yn unol â'u hanghenion a'u dymuniadau. Wrth inni heneiddio, gall gwahanol ffactorau darfu ar effeithiolrwydd y bwyd yr ydym yn ei fwyta a'r ddiod yr ydym yn ei hyfed, gan gynyddu'r risg o ddiffyg maeth, a allai gael canlyniadau iechyd difrifol. Gallai'r risg fod yn fwy i bobl hŷn sydd mewn cartref gofal, yn enwedig os oes ganddynt gyflyrau a allai effeithio ar faint o fwyd a diod y maent yn gallu eu cymryd. Rydym yn gwybod am rai arferion gwych mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Rydym yn awyddus i helpu pob cartref gofal i gyflawni'r arferion gorau ac i ddarparu gwasanaeth bwyd o safon uchel i'w preswylwyr.

Rydym yn falch o lansio'r ymgynghoriad hwn ar y Canllawiau Arferion Gorau ar gyfer Bwyd a Maeth mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn. Ein nod yw helpu cartrefi gofal i wella ansawdd a darpariaeth eu bwyd a'u diod a helpu darparwyr i fodloni eu hymrwymyiadau o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Rydym am i'r canllawiau arferion gorau hyn fod yn adnodd ymarferol a hwylus, a fydd yn helpu i sicrhau bod bwyd o safon uchel yn cael ei ddarparu mewn cartrefi gofal i bobl hŷn. Trwy gyfrwng yr ymgynghoriad hwn, hoffem glywed oddi wrth ddarparwyr cartrefi gofal, arolygwyr, dietegwyr, awdurdodau lleol ac - yn bwysicaf oll - y preswylwyr a'u teuluoedd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn mynychu nifer o fforymau sy'n bodoli'n barod yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, i hybu ymwybyddiaeth o'r canllawiau ac i'w trafod. Byddwn hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol â darparwyr er mwyn ystyried eich profiadau ymarferol. Hoffem glywed am eich profiadau chi o fwyd a diod mewn lleoliadau ar hyn o bryd, ac ystyried rhai o'r arferion gwych sy'n bodoli'n barod.

Rydym yn cydnabod cyfraniad sefydliadau allweddol ym maes darparu cartrefi gofal, Arolygiaeth Gofal Cymru, Dietegwyr, Age Cymru, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol, a helpodd i ddatblygu a llunio'r canllawiau drafft.

Mae croeso i'ch sylwadau, a byddant yn helpu i greu'r fersiwn derfynol y byddwn yn ei lansio tua diwedd y flwyddyn.

Beth yw'r prif faterion?

Mae gan bobl hŷn mewn cartrefi gofal anghenion dietegol amrywiol. Gall preswylwyr sy'n iach ac sy'n cael blas ar eu bwyd fwynhau diet cytbwys, iachus. Mewn llawr o gartrefi gofal, bydd preswylwyr sy'n fwy tebygol o fod ag anghenion cymorth a/neu gyflyrau sy'n effeithio ar faint o fwyd a diod y maent yn gallu eu cymryd ac sy'n fwy agored i ddiffyg maeth. Mae hyn yn golygu ei bod yn bwysicach sicrhau bod y bwyd a'r ddiod a ddarperir yn flasus, yn faethlon ac yn hygyrch, er mwyn cynnal eu hiechyd a'u llesiant.

Ble rydyn ni nawr?

Roedd y papur gwyn ar Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017 yn amlinellu'r cynigion ar gyfer datblygu canllawiau pellach a safonau arferion gorau ar fwyd a maeth ar gyfer lleoliadau cyhoeddus eraill, gan gynnwys cartrefi gofal i bobl hŷn. Mae cyhoeddi'r ymgynghoriad ar Fwyd a Maeth mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn yn rhan o'r broses honno.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u llunio gyda chyfraniad gan nifer o ddarparwyr cartrefi gofal, gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a phartneriaid perthnasol, ac mae'n adeiladu ar y gwaith cynharach i ddatblygu 'Menus Count in Care' yn Nhorfaen.

Bydd yn cynnwys canllawiau cynhwysfawr sy'n amlinellu'r safonau bwyd a sut i'w rhoi ar waith yn ymarferol, yn ogystal ag adrannau perthnasol ar hydradu, cyfnerthu bwyd, ansawdd, a dietau arbennig sy'n berthnasol i bobl hŷn, a phwysigrwydd yr amgylchedd bwyta er mwyn creu agwedd holistaidd. Bydd hefyd yn cael ei ategu gan ystod lawn o gynlluniau bwydlenni a syniadau am ryseitiau.

Y dystiolaeth dros newid

Mae arolygon diweddar yn dangos bod gennym yng Nghymru niferoedd mawr o bobl dros 65 oed sydd dros eu pwysau neu'n ordew. Er hynny, mae gordewdra yn lleihau wrth i bobl fynd yn hŷn. Mae canran y bobl hŷn mewn cartrefi gofal sydd dros eu pwysau neu'n ordew yn debygol o fod yn llawer llai nag yn y boblogaeth ar gyfartaledd, ond mae diabetes yn debygol o fod yn fwy cyffredin nag yn y boblogaeth yn gyffredinol.

Yn y DU, mae diffyg maeth yn gyffredin iawn ymysg pobl sy'n cael eu derbyn i ysbytai a chartrefi gofal. Dangosodd canlyniadau arolwg cenedlaethol yn 2011 bod y gyfradd gyffredinol yn 41% mewn cartrefi gofal, gydag ystod o 30-40% wrth i bobl gael eu derbyn i'r ysbyty, a bod tuedd i hyn gynyddu wrth i bobl fynd yn hŷn.

Mae'r rhan fwyaf o breswylwyr cartrefi gofal dros 65 oed, a llawer ohonynt dros 75, ac mae'n bosibl y byddant yn agored i risg o ddiffyg maeth. Os oes ganddynt anghenion cymorth uwch, mae eu harchwaeth at fwyd yn debygol o fod yn is. Mae'n bwysig bod eu hanghenion dietegol yn cael eu diwallu drwy roi ychydig o fwyd a diod maethlon iddynt. Os oes risg o ddiffyg maeth, mae'n bosibl y bydd angen cyfnerthu eu diet, ac os ydynt wedi cael diagnosis o broblem llyncu, mae'n bosibl y bydd addasu ansawdd eu diet.

**Ffurflen Ymateb i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:
Sefydliad (lle bo'n
berthnasol):
e-bost/rhif ffôn:
Eich cyfeiriad:

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Bwyd a Maeth mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn – canllawiau arferion gorau

Rydym yn awyddus i weithio gyda chartrefi gofal i helpu i well ansawdd y ddarpariaeth bwyd a diod ac i'w helpu i ddiwallu'r anghenion maeth amrywiol sydd gan eu preswylwyr, er mwyn sicrhau'r iechyd a'r llesiant gorau iddynt.

I'r perwyl hwn, rydym wedi rhestru nifer o gwestiynau i'w hystyried ynglŷn â chynnwys y ddogfen.

Sylwer: bydd yr adnodd terfynol yn cael ei ddylunio a'i gyhoeddi ar y we. Rydym yn ymgynghori ar y cynnwys ysgrifenedig a'r dyluniad arfaethedig.

Ticiwch i ddangos pa fath o ymatebydd ydych chi

Darparwr cartref gofal

Arolygydd cartrefi gofal

Gweithiwr iechyd proffesiynol

Preswilydd

Perthynas i breswilydd

Awdurdod Lleol

Arall (nodwch)

1. Ydych chi'n cytuno ei bod yn bwysig cael canllawiau cyfredol ar yr arferion gorau o ran bwyd a maeth?

Ydw/Nac ydw Esboniwch pam

2. Beth yw eich barn am y ffordd mae'r adrannau wedi eu gosod – ydyn nhw'n hawdd i'w darllen a'u dilyn?
3. Beth fyddai'n help i sicrhau bod y rhain yn hwylus i chi (e.e. adrannau ar wahân ar y we, hawdd eu hargraffu)
4. Beth yw eich barn am y dyluniad arfaethedig a ddangosir ar gyfer Adran 2?
5. Wrth feddwl am bob un o'r adrannau, ydych chi'n meddwl bod:
 - a. unrhyw rannau penodol o'r wybodaeth yn y ddogfen yr ydych yn anghytuno â nhw?
 - b. unrhyw fylchau yn yr wybodaeth, y dylid ei chynnwys yn eich barn chi?

- c. unrhyw rannau sy'n arbennig o ddefnyddiol?
6. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw broblemau neu rwystrau a allai atal y canllawiau bwyd a maeth rhag cael eu gweithredu'n llwyddiannus?
- Os ydych chi, dywedwch beth ydynt a sut y gellid eu datrys.
7. Pa fath o hyfforddiant, cymorth neu adnoddau yr hoffech chi eu gweld er myn helpu i roi'r canllawiau arferion gorau ar waith yn llwyddiannus?
8. Sut byddwch chi'n eu defnyddio?

Os ydych yn ddarparwr cartref gofal, atebwch gwestiynau 9 a 10.

9. Ydych chi'n meddwl y bydd y safonau ar gyfer bwyd a diod, a'r ryseitiau, yn eich helpu i gynllunio prydau, byrbrydau, diodydd a bwydlenni ar gyfer y preswylwyr yn eich gofal.

Ydw/Nac ydw esboniwch sut y byddant yn helpu, neu pam ddim

10. Ar hyn o bryd, ydych chi'n darparu bwyd ar gyfer preswylwyr sydd angen diet o wahanol ansawdd

Ydw/Nac ydw

Os ydych, ewch i gwestiwn 12. Os nac ydych, ewch i'r diwedd

Os ydych, ar gyfer faint o breswylwyr yn fras?

< 5

5 -10

11- 20

>20

11. Ydych chi'n darparu'r lefelau ansawdd IDDSI? (<https://iddsi.org/resources/>)

Ydw/Nac ydw Os ydych ticiwch y rhai yr ydych yn gallu eu darparu. Os nac ydych, ewch i gwestiwn 12

IDDSI Level 7 Regular diet

IDDSI Level 7 Easy to chew

IDDSI Level 6 Soft and bite sized

IDDSI level 5 Minced and moist

IDDSI level 4 Pureed

IDDSI Level 3 Liquidised

A oes rhai o'r rhain yn cael eu prynu? Oes/Nac oes Os oes, dywedwch pa rai

12. Disgrifiwch y mathau o lefelau ansawdd yr ydych yn gallu eu darparu

13. A yw gwefan IDDSI ac APP yn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i chi allu ei weithredu?

Ydy/Nac ydy

Os nac ydy, pa wybodaeth neu gymorth arall fyddai eu hangen arnoch?

Yn olaf, hoffem glywed gan gartrefi gofal os hoffech gyfrannu ryseitiau ar gyfer yr adran Bwydlenni a Ryseitiau, neu enghreifftiau o arferion da i'w cynnwys yn y canllawiau. Cysylltwch â'r blwch mewn neges ar wahân Lifestyles@llyw.cymru

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn 14 Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Bwyd a Maeth mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn - Canllawiau Arferion Gorau yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau rydych chi'n credu y byddai? Sut y gellid gynyddu effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Cwestiwn 15 Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig Bwyd a Maeth mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn - Canllawiau Arferion Gorau gael ei lunio neu ei addasu er mwyn:

[cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a peidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 16: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.